

# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-22-09 Papur 11

## Ymateb gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i'r ymchwiliad i'r defnydd ar welyau haul a'r dulliau o'u rheoleiddio yng Nghymru.

### Cefndir

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) yn cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus, gyda'r nod o wella iechyd a lles, lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd, amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau i iechyd a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae GICC yn darparu cyngor, adnoddau a gwybodaeth iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth arbenigol er mwyn galluogi amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol i gyflawni eu swyddogaethau iechyd cyhoeddus statudol.

Mae pelydriad uwch-fioled (UV) o'r haul ac o ffynonellau artiffisial fel gwelyau haul yn bryder sylweddol i iechyd cyhoeddus, ac mae tystiolaeth wyddonol gynyddol yn ymwneud ag amlygiad cronus i belydriad UV a'r potensial sydd iddo o achosi difrod i'r croen, fel llosg haul, canser y croen, a phroblemau ocwlar.

Mae gan GICC ddiddordeb clir mewn ymateb i'r ymchwiliad penodol hwn gan y Pwyllgor. Wrth wneud hynny, byddem yn pwysleisio'r pwysigrwydd i'r pwyllgor o fynd i'r afael â phob agwedd ar amlygiad i belydriad UV. Mae'r epidemioleg ddisgrifiadol yn amlygu bod tuedd fwyfwy amlwg y mae angen ymchwilio ymhellach iddo a gweithredu'n ataliol yn ei glych.

O ran mynd i'r afael â phroblem atal melanoma malaen a chyflyrau iechyd cysylltiedig eraill sy'n ymwneud ag amlygiad i'r haul a phelydriad UV, mae GICC, (fel rhan o'i gynllun gwaith presennol y cytunwyd â LICC arno) yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ymgyrchoedd atal presennol, gan gynnwys yr ymgyrch Herio'r Haul.

Wrth asesu angen o ran iechyd, mae GICC yn gweithio'n agos ar hyn o bryd â chydweithwyr yn Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU).

### Angen o ran iechyd

Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser y croen (melanoma a chanser y croen nad yw'n felanoma) wedi cynyddu'n sylweddol yn y Deyrnas Unedig (DU).

Mae gwybodaeth am felanoma malaen ar gael oddi wrth WCISU. Mae gwybodaeth ar gael mewn nifer o adroddiadau cyhoeddadedig.

Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru. Canser yng Nghymru, 1992-2006: Adroddiad Cynhwysfawr Medi 2008

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/242/WCISUTriennialReport2008%5FEnglish.pdf>

Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru. Cyhoeddiad Blynyddol Rhif SA9/01 Nifer yr achosion Canser yng Nghymru 2003-2007. 23 Ionawr 2009

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/242/Cancer%20Incidence%20in%20Wales%202003%2D2007.pdf>

Datgelodd yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd gan yr Uned yr hydref diwethaf (t 121 - 133) fod nifer yr achosion o felanoma malaen y croen wedi cynyddu'n sylweddol ymysg dynion a menywod yng Nghymru. Casglwyd y data hwn dros gyfnod o bymtheg mlynedd o 1992-2006.

Yn ystod 2007 yng Nghymru, cofnodwyd 558 achos o felanoma malaen a chofnodwyd 113 o farwolaethau.

Bellach, melanoma malaen yw'r canser mwyaf cyffredin ymhlith oedolion ifanc (rhwng 15 a 34 oed).

Mae WCISU hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am dueddiadau sy'n amlygu'r cynnydd – "Tueddiadau mewn Achosion, 1985-2006" – (gweler y detholiadau sydd wedi'u hatodi).

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/242/melanoma1.xls>

### Nodi tystiolaeth bresennol ac ymchwil cyfredol

Mae GICC yn argymhell y dylai'r pwyllgor, wrth ystyried yr amrywiol faterion, ystyried y sail dystiolaeth bresennol sydd ar gael. Nid yw GICC eto wedi cael cyfle yn ystod cyfnod byr yr alwad am dystiolaeth i ymgymryd ag adolygiad systematig llawn o'r dystiolaeth. Yn gyffredinol, bydd adolygiad systematig yn cymryd rhwng 18 a 24 mis i ymgymryd ag ef ond mae'n caniatáu am nodi'r holl dystiolaeth a'r ymchwil sydd ar gael, am arfarnu hwn am ei ddilysrwydd, a'i ystyried.

Fodd bynnag, mae GICC wedi cynnwys doleri i 'adolygiad brys' o lenyddiaeth, fel tystiolaeth, yr ymgymerwyd ag ef ar gyfer Awdurdod Lleol mewn cyfnod o amser byr. Mae adroddiad drafft yr adolygiad brys wedi'i atodi ac mae'n cynnwys gwybodaeth a all fod o

ddiddordeb i'r pwyllgor.

Mae'r adolygiad brys wedi amlygu nifer o gyhoeddiadau cynhwysfawr diweddar sy'n cynnwys argymhellion y byddem yn eu tynnu at sylw'r pwyllgor. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cynnwys:

Y Pwyllgor Ar Agweddau Meddygol ar Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE). 13<sup>eg</sup> Adroddiad. The health effects and risks arising from exposure to ultraviolet radiation from artificial tanning devices. COMARE 2009. Ar gael yn: <http://www.comare.org.uk/documents/COMARE13thReport.pdf>.

IARC Working Group (2007). The association of use of sunbeds with cutaneous malignant melanoma and other skin cancers: a systematic review. Int J Cancer 2007;120 :1116–1122.

Scientific Committee on Consumer Products of the European Commission. Opinion on biological effects of ultraviolet radiation relevant to health with particular reference to sunbeds for cosmetic purposes. SCCP/0949/05. SSCP 2008. Ar gael yn:

[http://ec.europa.eu/health/ph\\_risk/committees/04\\_sccp/docs/sccp\\_o\\_031b.pdf](http://ec.europa.eu/health/ph_risk/committees/04_sccp/docs/sccp_o_031b.pdf)

Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu ar bapurau a gyhoeddwyd hyd at 2008. Yn ogystal, byddai GICC yn argymhell bod y pwyllgor yn comisiynu adolygiad arall o dystiolaeth dros y cyfnod 2008/2009. Bydd GICC yn falch o gynnig cyngor a chefnogaeth wrth ymgymryd â gorchwyl o'r fath.

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth bresennol yn cynnwys:

Mae nifer y bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser y croen (melanoma a chanser y croen nad yw'n felanoma) wedi cynyddu'n sylweddol yn y Deyrnas Unedig (DU).

Bellach, melanoma malaen yw'r canser mwyaf cyffredin ymhlith oedolion ifanc (rhwng 15 a 34 oed).

Mae tystiolaeth dda mai amlygiad i'r haul yw prif achos canser y croen.

Ffactorau eraill sy'n dylanwadu'n sylweddol ar y risg o gael canser y croen yw presenoldeb croen golau, llygaid lliw golau, brychni neu fannau geni mawr.

Mae tystiolaeth o astudiaethau arsylwadol bod defnyddio gwelyau haul, yn enwedig gan bobl ifanc, yn cynyddu'r risg o gael canser y croen. Cafwyd tystiolaeth arolwg bod pobl ifanc yn gallu cael at welyau haul yng Nghymru a bod lefel yr oruchwyliaeth a'r wybodaeth yn isel.

Mae amlygiad gormodol i'r haul yn achosi effeithiau andwyol heblaw am ganser y croen, megis melanoma ocwlar, heneiddio cynamserol y croen ac imiwnolethiad. Fodd bynnag, mae angen mwy o dystiolaeth o ansawdd da.

Mae'r amgyffrediad o'r buddion a geir o ddefnyddio gwelyau haul yn bennaf seicolegol a chosmetig eu natur. Ni chaiff cynnal lefelau Fitamin D trwy ddefnyddio gwelyau haul ei argymhell.

Cafwyd adroddiadau am effeithiau andwyol difrifol gwelyau haul, yn enwedig o fannau heb oruchwyliaeth.

Wrth ymgymryd â'r adolygiad brys o dystiolaeth, ceisiodd cydweithwyr (drwy adolygiad o lenyddiaeth gyhoeddedig a chwiliadau ar y we) nodi gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, gan nodi sefydliadau sy'n darparu gwelyau haul yng Nghymru. Cafwyd y wybodaeth ganlynol:

Bu pennu nifer y sefydliadau cael lliw haul/gwelyau haul yng Nghymru yn anodd. Mewn un arolwg, Cymru oedd â'r raddfa gofrestru uchaf gyda'r 'Sunbed Association' yn y DU, gyda 17% o'r 203 o salonau yng Nghymru wedi'u cofrestru. Roedd nifer y lleoliadau'n cynyddu yn ôl difreintedd cynyddol mewn ardaloedd trefol a chyfoeth cynyddol mewn ardaloedd gwledig.

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth am nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi mewn salonau lliw haul yng Nghymru ac felly nid oedd modd meintoli effaith gostwng y defnydd ar welyau haul ar gyflogaeth.

O'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae 3 ohonynt yn cynnal gwelyau haul ar hyn o bryd.

Nid oes gofyniad presennol bod cyfleusterau lliw haul UV yn y sector preifat yn cofrestru gydag awdurdodau lleol, neu'n cael eu trwyddedu ganddynt, felly nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ddull ffurfiol o reoleiddio'r ffordd y caiff y cyfleusterau hyn eu cynnig.

## **Ymchwil parhaus**

Ar hyn o bryd, mae WCISU yn cynnal astudiaeth o epidemioleg melanoma. Mae'r prif ganollbwynt ar oroesi am 5 mlynedd a'r rhesymau sydd wrth wraidd canlyniadau sy'n ymddangos yn wael yng Nghymru, gan gynnwys er enghraifft y graddiant amddifadedd o ran goroesi.

## **Argymhellion**

Mae GICC yn argymhell:

1. Bod y pwyllgor, wrth fynd i'r afael â thelerau penodol yr ymchwiliad hwn, yn pwysleisio pwysigrwydd ceisio mynd i'r afael â phob

agwedd ar amlygiad i belydriad uwchfioled.

2. Bod y pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys mewn sawl adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o lenyddiaeth.
3. Bod y cwmni'n sylwi ar y bwch yn y dystiolaeth gyhoeddedig sydd ar gael ac yn argymhell ymgymryd ag adolygiad pellach o lenyddiaeth er mwyn mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y dystiolaeth bresennol, yn arbennig cyhoeddiadau yn 2008/09.
4. Bod y Pwyllgor yn cofnodi'r crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adolygiad brys o lenyddiaeth yr ymgymrodd GICC ag ef i gefnogi un ardal BILL.
5. Bod y pwyllgor yn cofnodi ac yn cefnogi'r gwaith astudio cyfredol y mae WCISU yn ymgymryd ag ef i archwilio epidemioleg melanoma.